

# CYFRIFIADURA A THECHNOLEG DDIGIDOL

O bosibl yn un o'r sectorau sy'n cynyddu a datblygu cyflymaf, mae technoleg ddigidol wrth galon busnes.

Mae mwy o swyddi na gweithwyr medrus felly mae cyflogwyr wastad yn edrych am recriwtiaid posibl sydd â'r sgiliau hyn. Os ydych yn ddatrysyr problemau, yn un sy'n meddu ar ddull gweithredu dadansoddol neu os oes gennych ddi-ddordeb yn y technolegau diweddaraf, yna dyma'r sector i chi! Cymerwch olwg ar y gwahanol lwybrau gyrfaedd y gallech chi eu dilyn:

## Datblygwyr Meddalwedd

Gelwir y rhain hefyd yn Ddadansoddwyr / Rhaglenwyr, rydych yn gweithio gyda'r defnyddiwr olaf/cwsmer i ddeall eu gofynion. Byddwch yn dylunio, gosod a chynnal rhaglenni, systemau a chymwysiaidau cyfrifiaduron sy'n helpu busnesau i redeg yn effeithiol.

## Dylunydd Gwefan

Mae dylunio gwefan yn gofyn creadigedd a llythrennedd cyfrifiaduron. Mae'r cyfrifoldebau yn cynnwys dylunio, gosod a chodio gwefannau, gan sicrhau eu bod yn edrych yn dda, yn gweithredu'n dda ac yn hawdd i'w defnyddio.

## Cynorthwydd Desg Gymorth


Os ydych yn hoffi helpu pobl a dod o hyd i ddatrysiadau, beth am ddod yn gynorthwydd desg gymorth? Os oes gennych feddwl technegol a sgiliau cyfathrebu gwych, gallwch helpu defnyddwyr TG i ddatrys eu hanhawsterau.

## Telathrebu

Mae telathrebu yn golygu technoleg sy'n trosglwydo gwybodaeth, megis setiau teledu a llinellau ffôn. Mae ystod o swyddi'n bodoli o osod, profi ac atgyweirio systemau i gynorthwyo deiliaid contractau a defnyddwyr sydd ag ymholiadau.

## Dolenni Defnyddiol

[www.bcs.org](http://www.bcs.org)  
BCS, y Sefydliad Siartredig ar gyfer TG  
[www.careerswales.com](http://www.careerswales.com)  
Gwefan Gyrfa Cymru



**£42.2K**  
**CYFLOG**  
**NODWEDDIADOL**  
**AR GYFARTALED**  
**YN Y DIWYDIANT**  
**HWN**

(ffynhonnell Reed)



**MAE TECHNOLEG**  
**GYFRIFIADURA**  
**A DIGIDOL YN**  
**CYFRANNU**  
**£101.8**  
**BILIWN**  
**AT**  
**ECONOMI'R**  
**DU**

(ffynhonnell Cision)

## Beth allaf i ei astudio, ac ymhle?

	Lefel	BG	C	DC	T
Technolegau Digidol Career Colleges	3		✓		
Cyfrifiadura	3		✓	✓	
Cyfrifiadura Coleg Seiber	3	✓			
Technoleg Gwybodaeth a Chreadigol	2	✓	✓	✓	✓
Technoleg Gwybodaeth	3				✓
Technoleg Gwybodaeth a Seiberddiogelwch	2	✓			
Defnyddwyr TG/ Systemau ac Egwyddorion TG	2			✓	
Astudiaethau Galwedigaethol - TGCh	1	✓			
Astudiaethau Galwedigaethol - TGCh a Busnes	1		✓	✓	

Ymgaisiwch ar-lein nawr ar [www.coleggwent.ac.uk](http://www.coleggwent.ac.uk) | [Helo@colegwent.ac.uk](mailto:Helo@colegwent.ac.uk) | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)



Campus key: BG - Parth Dysgu Blaenau Gwent / C - Campws Crosskeys / DC - Campws Dinas Casnewydd / T - Parth Dysgu Torfaen

